# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 27 Ionawr 2026

Amser: 09.01 - 09.20

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Julian Luke, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Ni chafwyd ymddiheuriadau.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

Dydd Mawrth

Dywedodd Jane Dodds ei bod wedi ysgrifennu at y Trefnydd i ofyn am ddatganiad llafar ar y sefyllfa bresennol gydag Undeb Rygbi Cymru a'r Gweilch. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'n ystyried y cais.

Nododd y Pwyllgor Busnes y canlynol:

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm.

Dydd Mercher

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.00pm.

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2026**

- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Gwerth Lluosyddion Gwahaniaethol) (Cymru) 2026 (5 munud)
- Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Trefniadau Osgoi Artiffisial) (Rhestrau Lleol) (Cymru) 2026 (15 munud)
- Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2026 (5 munud)
- Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Caffaeliadau sy'n Ymwneud ag Anheddau Lluosog) (Cymru) 2026 (5 munud)
- Rheoliadau Cau Cynlluniau Amaethyddiaeth Gwaddol yr Undeb Ewropeaidd (Cymru) 2026 (15 munud)
- Rheoliadau Rhentu Cartrefi (Datganiadau Ysgrifenedig Enghreifftiol o Gontract) (Cymru) (Diwygio etc.)  2026 (5 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 04 Chwefror 2026 -**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Teithio Llesol yng Nghymru (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Gwasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer: Buffy Williams (Rhondda) (30 munud)

Nododd y Rheolwyr Busnes mai'r bwriad yw y bydd y gyfran gyntaf o adroddiadau newid Rheolau Sefydlog i baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd yn cael ei chynnig i'r Senedd gytuno arnynt yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 25 Chwefror, ac y bydd rhagor o fanylion yn cael eu darparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Trafododd y Rheolwyr Busnes opsiynau ar gyfer amserlennu busnes y Senedd ar 4 Mawrth pan gynhelir trafodion Cyfnod 3 ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru).

### 3.4 Effaith Aelod yn gadael grŵp gwleidyddol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar y canlynol:

- cynnig y lle gwag ar y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i James Evans AS ac, os na fydd yn cymryd y lle hwn, dyrannu'r sedd wag i Grŵp Plaid Cymru;
- addasu dyraniad amser dadl yr wrthblaid i gymhareb 1:1;
- bod y drefn y mae arweinwyr a llefarwyr y Ceidwadwyr a Phlaid Cymru yn cael eu galw i ofyn cwestiynau llafar yn cael ei newid bob yn ail yn wythnosol; a
- nodi bwriad y Llywydd i newid y drefn y mae siaradwr cyntaf y Ceidwadwyr a siaradwr cyntaf Plaid Cymru yn cael eu galw i gyfrannu at ddatganiadau llafar a dadleuon.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau at y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni mewn perthynas â phenderfyniad ariannol Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr. Cadarnhaodd y Trefnydd y byddai'r Cwnsler Cyffredinol yn ymateb i'r llythyr.

### 4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ynghylch gwrthdaro amserlennu â dadl y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr. Cadarnhaodd y Trefnydd nad oedd y Llywodraeth yn bwriadu ail-drefnu'r ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) sydd i ddigwydd ar 24 Chwefror.

### 4.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cyllid at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i roi gwybod i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd y gallai fod angen iddo ystyried y goblygiadau gweithdrefnol sy'n deillio o gyfraddau treth incwm eiddo Cymru, a sut y byddai hyn yn gweithredu ochr yn ochr â phenderfyniad cyfraddau treth incwm blynyddol Cymru.

### 4.4 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd i:

- gyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Rheilffyrdd at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad terfynol o 20 Mawrth i gyflwyno adroddiad arno.

## 5 Trefniadau Cyflwyno

### 5.1 Trefniadau Cyflwyno yn ystod Toriad y Pasg a'r Diddymiad

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes gyngor gan y Swyddfa Gyflwyno a chytunodd:

- mai'r terfyn amser ar gyfer derbyn Cwestiynau Ysgrifenedig fydd 4pm ddydd Gwener 20 Mawrth;

- mai'r terfyn amser ar gyfer derbyn eitemau eraill o fusnes a gyflwynir, ac eithrio busnes brys yn ymwneud ag unrhyw gyfarfodydd adalw a gynhelir yn ystod toriad y Pasg, fydd 4pm ddydd Gwener 27 Mawrth;
- y bydd y Swyddfa Gyflwyno ar agor rhwng 10am a 3pm yn ystod y toriad, ac eithrio dydd Mawrth 7 Ebrill pan fydd ar agor tan 6pm;
- nad oes modd derbyn dim dogfennau i'w gosod os ydynt yn dod i law ar ôl 6pm ddydd Mawrth 7 Ebrill;
- nad oes modd gwneud unrhyw newidiadau i'r Gofrestr Buddiannau ar ôl 6pm ddydd Mawrth 7 Ebrill; ac
- mai'r dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â gweithgareddau Grwpiau Trawsbleidiol yw 6pm ddydd Mawrth 7 Ebrill ac y bydd yr holl Grwpiau Trawsbleidiol yn cael eu dadgofrestru'n awtomatig unwaith y bydd y diddymiad yn dechrau am hanner nos ddydd Mercher 8 Ebrill.

# 6 Gwaith Gweithdrefnol

## 6.1 Datganiadau o fuddiant: nodyn ychwanegol

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes nodyn ychwanegol ynghylch materion a godwyd yn y cyfarfod blaenorol a chytunodd i ddychwelyd i ystyriaeth bellach o'r argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn ei gyfarfod ddydd Iau 29 Ionawr, yn dilyn ymgynghori â grwpiau.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ysgrifennu at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad er mwyn gofyn i'w ddiwygiadau arfaethedig i'r canllawiau sy'n ymwneud â datgan buddiannau (y 'prawf perthnasedd') ddyfynnu Rheolwyr Busnes neu'r Trefnydd, wrth gyflwyno ar ran eu grŵp neu'r llywodraeth, fel enghraifft o lle na ellid fel arfer feddwl yn rhesymol bod buddiant personol wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i wneud hynny.